## RHESTR SBARDUNO: yn ble ydych yn debygol o ddarganfod ystlumod?

***Rhestr yw hon o ble mae ystlumod yn debygol o fod yn bresennol a phryd y gellir disgwyl yn rhesymol i ddatblygwyr gyflwyno arolwg ystlumod.***

**(1) Addasu, trawsnewid, dymchwel neu waredu adeiladau (gan gynnwys gwestai, ysgolion, ysbytai, capeli, eiddo masnachol ac adeiladau gwag) sy'n ymwneud ag:**

- adeiladau amaethyddol (e.e. ffermdai, ysguboriau ac adeiladau allanol) yn arbennig rhai sydd wedi'u hadeiladu o frics neu gerrig traddodiadol a/neu sydd â thrawstiau sydd yn y golwg;
- adeiladau sydd ag estyll dŵr a/neu deils sy'n hongian sydd o fewn 200m i goetir a/neu ddŵr;
- adeiladau a strwythurau sengl a godwyd cyn 1960 sydd o fewn 200m i goetir a/neu ddŵr
- adeiladau a godwyd cyn 1914 sydd o fewn 400m i goetir a/neu ddŵr;
- adeiladau a godwyd cyn 1914 sydd â thalcenni neu doeon llechi, waeth ble y maent;
- unrhyw adeilad sydd wedi ei leoli o fewn neu yn ymyl i goetir ac/neu dwr

**(2) Datblygiadau sy'n effeithio strwythurau adeiledig:**

- twneli, mwyngloddiau, odynau, tai ia, ceuffyrdd, amddiffynfeydd milwrol, llochesi rhag bomio, selerydd ac unrhyw ddwythell neu strwythur tanddaearol tebyg; simneiau diwydiannol diddefnydd sydd heb eu leinio ac wedi'u hadeiladu o frics/cerrig traddodiadol.
- strwythurau pont, traphontydd dŵr a thraphontydd ffordd (yn arbennig dros ddŵr a thir gwlyb);

**(3) Goleuadau allanol neu lifoleuadau:**

- capeli ac adeiladau rhestredig, ardaloedd gwyrdd (ee caeau chwaraeon) o fewn 50m i goetir, dŵr, gwrychoedd caeau neu linellau o goed sydd â chyswllt amlwg â choetir neu ddŵr.
- Unrhyw adeilad sy'n cael ei restru yn (1) uchod

**(4) Torri, tynnu neu docio:**

- coetir
- gwrychoedd caeau ac/neu linellau o goed sydd â chyswllt amlwg â choetir neu gyrff o ddŵr.
- hen goed a choed hynafol sy'n hŷn na 100 mlwydd oed;
- coed aeddfed gyda thyllau, craciau neu geudodau amlwg neu wedi eu gorchuddio ac eiddew (gan gynnwys coed mawr feirw).

**(5) Cynlluniau sy'n effeithio ardaloedd dyfrol:**

- o fewn 200m o afonydd, nentydd, camlesi, lynnoedd, corsleoedd neu gynefinoedd dyfrol

**(6) Cynlluniau sydd wedi eu lleoli o fewn neu yn ymyl i:**

- chwareli neu byllau graean
- wynebau clogwyn naturiol a brigiadau creigiog sydd ag agennau, ogofau neu lyncdyllau.

**(7) Cynlluniau sy'n cynnwys datblygu trybini gwynt**

**(8) Unrhyw gynlluniau y mae'n wybyddus bod ystlumod yn bresennol.** Gall hyn gynnwys datblygiad arfaethedig sy'n effeithio ar unrhyw fath o adeilad, strwythur nodwedd neu leoliad.